

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A MENTER
11 MAWRTH 2020

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Mercher, 11 Mawrth 2020.

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Ron Davies, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Ted Palmer, Kevin Rush, Paul Shotton a David Wisinger

DIRPRWYON: Y Cyngorydd Patrick Heesom (yn lle Brian Lloyd)

YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr: Sian Braun, Helen Brown a Derek Butler

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Christine Jones

CYFRANWYR: Y Cyngorydd Carolyn Thomas, Dirpwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad; y Cyngorydd Dave Hughes, Aelod Cabinet Tai; Prif Swyddog (Tai ac Asedau); Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd A'r Economi); Rheolwr Gwasanaeth – Rheolwr Menter, Adfywio a Thai

HEFYD YN MYNYCHU: Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter a'r Swyddog Gwasanaethau Etholiadol.

43. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cyngorydd Ted Palmer gysylltiad personol yn eitem 5 ar y Rhaglen - Polisi Rheoli Tenantiaeth, fel tenant i'r Cyngor.

Datganodd y Cyngorwyr Paul Shotton a David Wisinger gysylltiad personol yn eitem 8 ar y Rhaglen - Adroddiad Monitro Cynllun y Cyngor 2019/20 Chwarter 3, fel Aelodau o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

44. COFNODION

Cyfeiriodd y Cyngorydd Dennis Hutchinson at dudalen 4 o'r cofnodion a diolchodd i'r Cadeirydd ac Aelod Cabinet dros Dai am eu hymateb i'w gais i ddod â gwybodaeth am SARTH i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Rosetta Dolphin at y paragraff olaf ond un ar dudalen 5 o'r cofnodion a gofynnodd am iddo gael ei ddiwygio i gynnwys yr ymateb a roddwyd gan y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) yn ystod y cyfarfod.

PENDERFYNWYD:

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

45. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith I'r Dyfodol ddiweddaraf ac adroddodd ar y trefniadau sy'n cael eu gwneud i gynnal gweithdy ar gyfer bob Aelod ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB) ym mis Mai, 2020. Byddai manylion dyddiad, amser a lleoliad y gweithdy cael ei ddsbarthu i'r Aelodau maes o law.

Adroddodd yr Hwylusydd hefyd, ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd, bod trefniadau wedi'u gwneud i'r Pwyllgor dderbyn sesiwn friffio ar SARTH a'r Polisi Dyraniadau cyn dechrau cyfarfod nesaf y Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 29 Ebrill, 2020.

I gloi, nododd yr Hwylusydd fod Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio siarad â nifer fach o Aelodau'r Pwyllgor am y Gwasanaeth Ôl-ddyledion Rhent. Dywedodd y byddai'n anfon e-bost at y Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod i ofyn am wirfoddolwyr i gymryd rhan mewn cyfarfod gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

Mynegodd y Cynghorydd Patrick Heesom ei siom nad oedd y gweithdy ar gyfer bob Aelod ar NWEAB yn cael ei gynnal tan fis Mai a dywedodd fod angen i'r Aelodau graffu ar y fargen ar frys. Esboniodd yr Hwylusydd, yn dilyn ceisiadau gan nifer o Bwyllgorau Craffu am adroddiad ar NWEAB, teimlwyd mai gweithdy i ganiatáu i'r holl Aelodau gyfrannu fyddai'r ffordd orau ymlaen. Y rheswm fod mis Mai yn cael ei gynnig fel dyddiad oedd bod angen gweithdai ychwanegol i ganiatáu i'r Aelodau ystyried Cynllun y Cyngor 2020/21 a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddiwygiedig (MTFS) yn gyntaf er mwyn caniatáu ystyried cyn cyflwyno adroddiadau i'r Cyngor Sir.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn ystyried y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol drafft a chymeradwyo/newid fel bo'r angen;
- (b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

46. POLISI RHEOLI TENANTIAETH

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) y Polisi Rheoli Tenantiaethau a oedd yn nodi sut roedd y Cyngor yn rheoli'r mathau o denantiaethau a ddarperir ganddo o dan y ddeddfwriaeth gyfredol ac wrth gyflawni ei rwymedigaethau statudol fel landlord. Ceisiodd y Polisi hefyd sicrhau bod systemau effeithiol yn cael eu mabwysiadu ar gyfer rheoli a gweinyddu gwasanaethau tai yn effeithlon.

Darparodd y Prif Swyddog wybodaeth ychwanegol ar bob un o adrannau'r Polisi Rheoli Tenantiaethau, a oedd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad. Tynnodd sylw'r Aelodau at newidiadau diweddar i ardaloedd cymunedol, a gyflwynwyd i gydymffurfio â'r rheoliadau diogelwch tân cyfredol. Roedd hyn yn golygu nad ddylai'r manau cymunedol gael eu defnyddio i storio eitemau a allai

beri risg pe bai tân, naill ai oherwydd llosgadwyedd neu rwystro allanfa pe bai angen gwagio.

Tynnodd y Prif Swyddog sylw'r Aelodau hefyd at newidiadau Llywodraeth Cymru (LIC) i denantiaethau, fel y manylir yn yr adroddiad ac awgrymodd y dylid cynnwys adroddiadau diweddarau pellach ar Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 wrth iddi gael ei deddfu'n llawn, ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor, i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn diweddarau'r Aelodau.

Diolchodd y Cyngorydd Paul Shotton i swyddogion am yr adroddiad a gofynnodd a allai Aelodau'r Pwyllgor gymryd rhan mewn ymweliad â Swyddfeydd y Fflint i ddod yn gyfarwydd â'r swyddogion newydd yn dilyn ailstrwythuro'r adran dai. Awgrymwyd y dylid llunio pwy yw pwy o staff tai a'u dosbarthu i'r Pwyllgor er gwybodaeth yn y lle cyntaf.

Gofynnodd y Cyngorydd Rosetta Dolphin a allai tenant golli hawl olyniaeth ar ôl i'r berthynas chwalu. Gofynnodd hefyd pa gymorth a ddarparwyd i denantiaid pe bai'n rhaid dymchwel eu cartref. Cadarnhaodd y Rheolwr Tai y byddai angen sefydlu tenantiaeth newydd yn dilyn perthynas yn chwalu. Cadarnhaodd hefyd pe bai angen dymchwel cartref, byddai'r tenant yn cael ei ail-gartrefu.

Yn dilyn pryderon a godwyd gan y Cyngorydd Ted Palmer bod yr adran sy'n delio ag Olyniaethau yn y Polisi Rheoli Tenantiaethau yn anodd ei deall, cytunodd y Prif Swyddog y byddai swyddogion yn edrych ar hyn ymhellach ac yn ei newid os yn bosibl.

Gwnaeth y Cyngorydd David Wisinger sylwadau ar y cynnydd yn nifer y tenantiaid y cysylltir â nhw i wneud hawliadau ynghylch diffyg atgyweirio a gofynnodd sut ymatebodd y Cyngor iddynt. Gwnaeth sylwadau hefyd ar effeithiau ariannol posibl COVID-19 a gofynnodd a ellid gohirio taliadau rhent ar gyfer tenantiaid sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol. Esboniodd y Brif Swyddfa fod y Cyngor wedi amddiffyn hawliadau diffyg atgyweirio yn drwyadl. Esboniodd hefyd nad oedd unrhyw gynigion ar hyn o bryd i ohirio taliadau rhent ar gyfer tenantiaid ond y byddai pob cais yn cael ei ystyried fesul achos.

Croesawodd y Cyngorydd Dennis Hutchinson yr adroddiad ond cododd bryderon ynghylch newidiadau i ddyraniadau a oedd wedi arwain at gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn llety gwarchod. Gwnaeth y Prif Swyddog sylwadau ar y prosesau sydd ar waith i droi tenantiaid allan sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol a dibyniaeth ar wybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dywedodd hefyd y byddai adolygiad o ddyraniadau i lety gwarchod yn cael ei gynnal.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd Ron Davies ar ymweliadau â thenantiaid, cadarnhaodd y Rheolwr Tai fod ymweliadau â thenantiaid yn cael eu cynnal trwy apwyntiad. Dywedodd hefyd, yn ystod tenantiaethau rhagarweiniol, bod swyddogion tai wedi ymweld bob 3, 6 a 9 mis fel y gallai unrhyw broblemau posib gael eu nodi'n gynnar.

Cynigiodd y Cyngorydd Ron Davies y dylid nodi'r Polisi Rheoli Tenantiaethau ac eiliwyd hyn gan y Cyngorydd Patrick Heesom.

PENDERFYNWYD:

Bod y Polisi Rheoli Tenantiaethau yn cael ei nodi.

47. Y DIWEDDARAF AR ADFYWIO CANOL TREFI

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yr adroddiad a roddodd ddiweddariad ar y gwaith a wnaed ers mis Chwefror 2019. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnig cynnydd yn y raddfa weithredu i hwyluso'r newid i ddefnyddiau tir mwy cynaliadwy yng nghanol trefi.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth - Menter ac Adfywio fod canol trefi yn genedlaethol yn wynebu amgylchiadau economaidd heriol oherwydd ymddygiad newidiol gan siopwyr a'r diwydiant manwerthu. Roedd y Cyngor bob amser wedi cefnogi canol trefi gyda'r Cyngor, yn y gorffennol, yn gallu tynnu cyllid cyfalaf i lawr yn rheolaidd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol ac i eiddo gan Lywodraeth Cymru (LIC) ac Asiantaeth Datblygu Cymru. Crynhowyd rhestr o raglenni a phrosiectau a gefnogwyd ac a gyflwynwyd trwy'r pecynnau cyllido yn yr adroddiad.

Tynnodd y Rheolwr Gwasanaeth - Menter ac Adfywio sylw'r Aelodau at y dull mwy uchelgeisiol a gymerir gan y Cyngor i gynorthwyo cynghorau tref, yng nghyd-destun y dull strategol y cytunwyd arno gan y Cabinet ym mis Mai 2019, fel y manylwyd yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Ron Davies ynghylch yr angen am adolygiad o oleuadau traffig a lôn fysiau yn Shotton, cytunodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad i roi gwybodaeth i'r Cynghorydd Davies yn dilyn y cyfarfod ar y cynigion i wella'r gyffordd a goleuadau traffig yn Shotton fel rhan o osod gwelliannau cyffyrdd ar hyd Shotton a Queensferry.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran datblygu'r tir lle roedd swyddfeydd y Cyngor yn arfer bod yng Nghei Connah a safle Somerfield. Dywedodd y Rheolwr Menter ac Adfywio y bu sgysiau gweithredol gyda'r Cyngor ar y defnydd o'r safle yn y dyfodol ac er nad oedd llyw clir ar hyn o bryd, y gobaith oedd gweld uned siop yno.

Gwnaeth y Cynghorydd Ted Palmer sylwadau ar gau adeiladau mawr ar stryd fawr Treffynnon, ers yr astudiaeth gwirio iechyd a gynhaliwyd yn 2008, fel banciau, nad oeddent yn addas ar gyfer adeiladau manwerthu a gofynnodd a ellid addasu'r adeiladau hyn i ddarparu tai ond cadw ychydig o le at ddibenion manwerthu. Gwnaeth y Cynghorydd Dave Wisinger sylwadau hefyd ar nifer yr unedau manwerthu gwag, ar gyrion canol trefi, a oedd yn aros yn wag am gyfnod hir a'l fod yn teimlo mai'r defnydd gorau ohonynt fyddai eu trawsnewid yn dai, a fyddai'n cynorthwyo gyda chynnyddu nifer yr ymwelwyr â chanol trefi. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth - Menter ac Adfywio, yn dilyn yr astudiaeth gwirio iechyd flaenorol, y byddai canol trefi yn cael eu hailystyried a'u hadolygu yn unol â hynny. Gwnaeth y Prif Swyddog sylwadau ar newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru a oedd yn anelu at wneud canol trefi yn lleoedd cynaliadwy i fyw ynddynt, gan ystyried cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus.

Gwnaeth y Cynghorydd Patrick Heesom sylwadau ar y Polisi Canol Trefi a oedd, yn ei farn ef, wedi bod o fudd i rai ardaloedd o'r Sir ond nid pob un. Dywedodd fod angen i'r Aelodau gofio am Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a fyddai'n pennu dyfodol canol trefi a dywedodd bod angen buddsoddiad teg ym mhob canol tref ar draws y Sir. Amlinellodd rywfaint o amheuaeth o ran y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a gwnaeth sylwadau ar nifer y cartrefi sy'n cael eu hadeiladu yn Sealand a oedd wedi bod yn ardal risg llifogydd. Ymatebodd y Prif Swyddog fod y dull a ddefnyddir i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu canol trefi yn unol â gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. O ran adeiladu tai ym Mhorth y Gogledd yn Sealand, roedd y tir wedi'i amddiffyn rhag llifogydd trwy fuddsoddiad gan LIC a ddiogelodd y safle am 100 mlynedd.

Gwnaeth y Cynghorydd Dennis Hutchinson sylwadau ar y dadbedestreiddio arfaethedig yng nghanol tref Bwcle a gofynnodd pen na fyddai'r cyhoedd yn cefnogi'r cynnig a fyddai hyn yn rhwystro gwelliannau arfaethedig eraill sy'n parhau yn y dref. Gofynnodd hefyd am gefnogaeth i wella ac ailagor adeilad hanesyddol Baddonau Bwcle. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth - Menter ac Adfywio y gallai cynlluniau arfaethedig eraill barhau pe na bai'r dadbedestreiddio yn cael ei gefnogi.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad fod nifer o gynlluniau i wella canol trefi yn cael eu hystyried ac wedi cael eu rhoi ar waith megis gwelliannau i gysylltu canol trefi trwy drafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau Teithio Llesol newydd, a thrwy hynny'n eu cynnal fel hybiau trafnidiaeth. Gwnaeth sylwadau hefyd ar yr awydd i ganol trefi ddod yn wyrdd gyda phlannu coed lled aeddfed gan ddefnyddio pyllau coed sy'n gwella draeniad, creu ymdeimlad o les a gwella'r amgylchedd naturiol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Rosetta Dolphin ynghylch cyllid yn y dyfodol, esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth - Menter ac Adfywio y byddai'r Cabinet yn gwneud penderfyniad ar gyllid wrth ystyried yr adroddiad ym mis Mawrth, 2020, fodd bynnag, dywedodd y byddai cael y buddsoddiad cywir a'r dull cywir yr un mor bwysig â'r cyllid. Gwnaeth y Prif Swyddog sylwadau ar sefydlu ardal Gwella Busnes ar gyfer canol trefi, er mwyn i gymunedau busnes allu rheoli beth i'w wella.

Dywedodd y Cynghorydd Davies fod cyngor tref Shotton yn enghraifft o dref lewyrchus gyda llawer o siopau ond nad oedd pobl yn cael eu hannog i ymweld â hi oherwydd y problemau traffig a oedd wedi bod yn mynd rhagddynt ers nifer o flynyddoedd. Gwnaeth sylwadau hefyd ar yr hen Bargain Stores yng Nghei Connah a oedd wedi dadfeilio ers nifer o flynyddoedd a gofynnodd beth ellid ei wneud i wella hyn. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad y byddai traffig yn Shotton yn cael ei wella fel rhan o'r Gwelliannau Lôn Bysiau. Esboniodd y Prif Swyddog fod y Cyngor eisioes yn edrych i brynu'r hen Bargain Stores fel rhan o Orchymyn Prynu Gorfodol ond nad oedd hwn wedi'i gwblhau. Dywedodd fod yr adeilad hwn yn enghraifft o adeilad a esgeuluswyd yn cael effaith niweidiol ar estheteg ardal.

PENDERFYNWYD:

- a) Cefnogi'r cynnydd a wnaed o ran adfywio yng nghanol trefi yn Sir y Fflint a'r dull o ail-ganolbwyntio sy'n cael ei gynnis ar gyfer 2020 a thu hwnt; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn argymhell i'r Cabinet yr adnoddau ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer swydd Uwch Swyddog.

48. Y DIWEDDARAF AR SIR Y FFLINT MEWN BUSNES

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yr adroddiad a oedd yn crynhoi gwaith y tîm datblygu busnes ac yn rhoi diweddariad ar raglen Sir y Fflint Mewn Mewn Busnes ar gyfer 2019. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi ar beth fyddai'r gwasanaeth yn canolbwyntio ei waith yn 2020 a thu hwnt mewn ymateb i newidiadau i'r economi ac i flaenoriaethau corfforaethol.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth - Menter ac Adfywio mai prif swyddogaeth y gwasanaeth oedd ymgysylltu â busnes a oedd yn gweithredu fel platfform ar gyfer adeiladu gweithgareddau eraill gan y gwasanaeth a darparwyd eraill. Roedd hon yn rôl unigryw na ddarparwyd mewn man arall ac roedd yr adborth gan randdeiliaid a chwsmeriaid busnes wedi bod yn gadarnhaol dros ben o ran y gwasanaeth a gawsant gan y tîm.

Un o'r rhaglenni blaenllaw a ddarparwyd gan y gwasanaeth oedd Sir y Fflint Mewn Busnes (Wythnos Fusnes Sir y Fflint gynt). Roedd hyn wedi gweithredu am 13 blynedd ac wedi'i ariannu'n llawn trwy nawdd gan y gymuned fusnes. Yn 2019 penderfynwyd rhoi'r gorau i weithredu'r rhaglen fel cyfres o ddigwyddiadau wythnos o hyd gan y teimlwyd bod hyn yn ei gwneud yn anoddach i fusnesau fynychu pob un o'r digwyddiadau. Yn lle hynny, cynigiwyd lledaenu'r digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn. Manylwyd ar y digwyddiadau a gynhwyswyd yn y rhaglen ar gyfer 2019 yn yr adroddiad.

Tynnodd y Rheolwr Gwasanaeth - Menter ac Adfywio sylw'r Aelodau at gyfeiriad strategol y gwasanaeth a sut y byddai'r gwasanaeth yn ailffocysu ei waith yn 2020/21 i adlewyrchu'r byd sy'n newid i fusnesau yn y Sir, fel y manylwyd yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Shotton ei bod yn bwysig i'r Aelodau gydnabod gwaith y tîm a llongyfarchodd y tîm ar eu gwaith a'r rhwydweithio sy'n cael ei wneud ledled Sir y Fflint.

Gofynnodd y Cynghorydd Ted Palmer am ragor o wybodaeth am y cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru (LIC) y byddai 7 tref ledled Gogledd Cymru yn elwa o Wi-Fi am ddim. Cytunodd y Rheolwr Menter ac Adfywio i ddarparu mwy o wybodaeth am hyn yn dilyn y cyfarfod.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd Patrick Heesom ynghylch y diffyg buddsoddi yn Nociâu Mostyn, sicrhaodd y Prif Swyddog y Cynghorydd Heesom nad oedd Dociâu Mostyn yn cael eu hanghofio ac y byddai'r adran o'r adroddiad yn cyfeirio at y llif gwaith i wella'r cydlynad a chydgyssylltu gweithgaredd cymorth busnes gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cynorthwyo gyda dull mwy cydgysylltiedig.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd Dave Wisinger ar faint o unedau diwydiannol y cyngor a feddiannwyd, nododd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) fod tuag at ben uchaf 80% o unedau diwydiannol yn cael eu meddiannu. Esboniodd fod adolygiad o ystadau diwydiannol i fod i gael ei gynnal er mwyn sefydlu pa rai y byddai angen eu hailddatblygu yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r cynnydd a wnaed o ran darparu cymorth busnes yn Sir y Fflint a'r blaenoriaethau a adnewyddwyd ar gyfer y dyfodol.

49. ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 3 CYNLLUN Y CYNGOR AR GYFER 2019/20

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) a'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) adroddiad i gyflwyno crynodeb o'r gwaith monitro a wnaed o gynnydd o ran sefyllfa chwarter tri 2019/20 ar gyfer blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 'Cyngor sy'n Gofalu', 'Cyngor Uchelgeisiol' a 'Chyngor sy'n Gwasanaethu' sy'n berthnasol i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn adroddiad am eithriadau ac felly'n canolbwyntio ar y meysydd a oedd yn tan-berfformio.

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) er bod nifer yr unigolion a gefnogwyd trwy'r gwasanaeth mentora sy'n mynd i gyflogaeth, dysgu a gwirfoddoli yn is na'r targed, roedd ef a'r tîm yn hyderus bod y targed blwyddyn lawn yn gyraeddadwy.

Gwnaeth y Cyngorydd Rosetta Dolphin sylwadau ar berfformiad y Tîm Digartrefedd a'r Tîm sy'n cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer tenantiaid y Cyngor a gofynnodd am anfon llythyr at Jenni Griffiths, Rheolwr Digartrefedd a Chyngor a Sean O'Donnell, Rheolwr Tîm Gwaith Cyfalaf yn diolch iddyn nhw a'u timau am eu gwaith caled yn eu meysydd gwasanaeth.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Dolphin hefyd at fesur perfformiad 1.4.5.1 a gofynnodd pam y dangoswyd bod y cynnydd yn wyrdd os oedd nifer yr unedau llety cymdeithasol a ddarparwyd wedi gostwng ar ôl i'r gymdeithas dai fethu â chyrraedd ei tharged. Cytunodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) i ddarparu ymateb yn dilyn y cyfarfod.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd Dolphin ynghylch gosod pypmiau gwres yr awyr, cytunodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) i ddarparu manylion y swyddogion i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod fel y gallai'r Aelodau ddarparu gwybodaeth i breswylwyr trwy eu cylchlythyrau.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

50. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.20 pm)

.....
Y Cadeirydd